***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 31/12/2020. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Instrument yn cynnwys darpariaethau sy'n rhagolygol.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Mae newidiadau yn dal heb eu gwneud i Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019. Mae unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud yn barod gan y tîm yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt gydag anodiadau. (See end of Document for details)*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2019 Rhif 424 (Cy. 98)

# YMADAEL Â'R UNDEB EWROPEAIDD, CYMRU ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019

*Gwnaed - - - - 4 Mawrth 2019*

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - - 5 Mawrth 2019*

*Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2)*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau 1 a 2 o Ddeddf Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) 1983(**1**) ac adrannau 22 a 42(6) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998(**2**)

sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy(**3**) a'r pwerau a roddir iddynt o dan adrannau 5(5)(b) a 55(2) o Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015(**4**) yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

PROSPECTIVE

(**1**) 1983 p. 40; diwygiwyd adran 1 gan Ddeddf Diwygio Addysg 1988 (p. 40) , Atodlen 12, paragraff 91; Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 (p. 13) , Atodlen 8, paragraff 19; Deddf Addysg 1994 (p. 30), Atodlen 2, paragraff 7; Deddf Addysg 1996 (p. 56), Atodlen 37, paragraff 57; Deddf Dysgu a Sgiliau 2000 (p. 21), Atodlen 9, paragraffau 1 ac 11; Deddf Addysg 2002 (p. 32), Atodlen 21, paragraff 5 ac Atodlen 22; Deddf Addysg 2005 (p. 18), Atodlen 14, paragraff 9; O.S. 2005/3238, Atodlen 1, paragraff 9; O.S. 2010/1158, Atodlen 2, paragraff 1; Deddf Addysg 2011 (p. 21), Atodlen 5, paragraff 5 ac Atodlen 16, paragraff 5; a Deddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20), Atodlen 14, paragraff 33. Diwygiwyd adran 2 gan Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 (p. 30), adran 44 ac Atodlen 4.

(**2**) 1998 p. 30; diwygiwyd adran 22 gan Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 (p. 21), adran 146 ac Atodlen 11; Deddf Treth Incwm (Enillion a Phensiynau) 2003 (p. 1), Atodlen 6; Deddf Cyllid 2003 (p. 14), adran 147, Deddf Addysg Uwch 2004 (p. 8), adrannau 42 a 43 ac Atodlen 7; Deddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 (p. 22), adran 257; Deddf Addysg 2011 (p. 21), adran 76; O.S. 2013/1181 a Deddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017 (p. 29), adran 88. *Gweler* adran 43(1) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 am y diffiniad o "prescribed" a "regulations".

(**3**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol yn adran 1 o Ddeddf 1983 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru gan O.S. 2006/1458 gydag effaith o 8 Mehefin 2006. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol yn adran 2 o Ddeddf 1983 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru gan O.S. 1999/672. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol yn adran 22(2)(a) i (i) a (k) o Ddeddf 1998 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn ymwneud â gwneud darpariaeth o ran Cymru gan adran 44 o Ddeddf Addysg Uwch 2004 (p. 8), ac mae swyddogaethau o dan is-adrannau (a), (c) a (k) yn arferadwy ar y cyd â'r Ysgrifennydd Gwladol. Trosglwyddwyd swyddogaeth yr Ysgrifennydd Gwladol yn adran 42, i'r graddau y mae'n arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan O.S. 1999/672. Trosglwyddwyd holl swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru uchod i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

(**4**) 2015 dccc 1.

# RHAN 1

## ENWI, CYCHWYN A CHYMHWYSO

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar y diwrnod ymadael ac maent yn gymwys o ran Cymru.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Rhl. 1 mewn grym ar 31.12.2020 ar ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu (yn unol â 2020 c. 1, Atod. 5 para. 1(1)), gweler **rhl. 1(2)**

# RHAN 2

## DIWYGIADAU I REOLIADAU

**Diwygiadau i Reoliadau Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) (Cymru) 2007**

**2.** Mae Rheoliadau Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) (Cymru) 2007(**5**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I2** Rhl. 2 mewn grym ar 31.12.2020 ar ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu (yn unol â 2020 c. 1, Atod. 5 para. 1(1)), gweler **rhl. 1(2)**

**Diwygiad i reoliad 2**

**3.** Yn rheoliad 2 (dehongli)—

(a) ym mharagraff (1), yn y diffiniad o "tiriogaethau tramor", ar ôl "Tiriogaethau Deheuol ac Antarctig Ffrainc" mewnosoder "Gibraltar";

(b) ym mharagraff (4)—

(i) yn lle "y diriogaeth a ffurfir gan yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir" rhodder "y diriogaeth a ffurfir gan y Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir";

(ii) yn lle "y diriogaeth a ffurfir gan yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a'r tiriogaethau tramor" rhodder "y diriogaeth a ffurfir gan y Deyrnas Unedig, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a'r tiriogaethau tramor";

(iii) yn lle "y diriogaeth a ffurfir gan yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir, Twrci a'r tiriogaethau tramor" rhodder "y diriogaeth a ffurfir gan y Deyrnas Unedig, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir, Twrci a'r tiriogaethau tramor";

(**5**) O.S. 2007/2310 (Cy. 181) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2010/1142 (Cy. 101), O.S. 2011/1978 (Cy. 218) ac O.S. 2018/814 (Cy. 165); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.

(c) ym mharagraff (5)(b) ac (c), ar ôl "y tu allan i'r diriogaeth a ffurfir gan" mewnosoder "y Deyrnas Unedig, Gibraltar,";

(d) ym mharagraff (6)—

(i) yn lle "y diriogaeth a ffurfir gan yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir" rhodder "y diriogaeth a ffurfir gan y Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir";

(ii) yn lle "y diriogaeth a ffurfir gan yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a'r tiriogaethau tramor" rhodder "y diriogaeth a ffurfir gan y Deyrnas Unedig, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a'r tiriogaethau tramor";

(iii) yn lle "y diriogaeth a ffurfir gan yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a Thwrci" rhodder "y diriogaeth a ffurfir gan y Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a Thwrci";

(e) ym mharagraff (7), ar ôl "mae ardal" mewnosoder "ac eithrio'r Deyrnas Unedig neu Gibraltar".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** Rhl. 3 mewn grym ar 31.12.2020 ar ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu (yn unol â 2020 c. 1, Atod. 5 para. 1(1)), gweler **rhl. 1(2)**

**Diwygiadau i'r Atodlen**

**4.**—(1) Mae'r Atodlen wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff 1—

(a) hepgorer y diffiniad o "gwladolyn o'r GE";

(b) hepgorer "ac eithrio'r Deyrnas Unedig" ym mhob lle y mae'n digwydd;

(c) ar ôl y diffiniad o "gwladolyn o'r AEE", mewnosoder—

"ystyr "gwladolyn o'r UE" ("*EU national*") yw gwladolyn o Aelod-wladwriaeth o'r Undeb Ewropeaidd;";

(d) yn y diffiniad o "aelod o'r teulu", yn lle "gwladolyn o'r GE" rhodder "gwladolyn o'r UE" ym mhob lle y mae'n digwydd.

(3) Yn y paragraffau a ganlyn—

(a) ym mharagraff 3(ch) (personau sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig), ar ôl "y diriogaeth a ffurfir gan" mewnosoder "y Deyrnas Unedig,";

(b) ym mharagraff 6(1)(c) (gweithwyr, personau cyflogedig, personau hunan-gyflogedig ac aelodau o'u teulu), ar ôl "y diriogaeth a ffurfir gan" mewnosoder "y Deyrnas Unedig,";

(c) ym mharagraff 7(b) (gweithwyr, personau cyflogedig, personau hunan-gyflogedig ac aelodau o'u teulu), yn lle "y diriogaeth sy'n ffurfio'r Ardal Economaidd Ewropeaidd" rhodder "y diriogaeth a ffurfir gan y Deyrnas Unedig, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd".

(4) Ym mharagraff 8 (personau sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig ac sydd wedi arfer hawl i breswylio mewn man arall)—

(a) yn is-baragraff (1)(ch), ar ôl "y diriogaeth a ffurfir gan" mewnosoder "y Deyrnas Unedig,";

(b) yn is-baragraff (1)(d), ar ôl "y diriogaeth a ffurfir gan" mewnosoder "y Deyrnas Unedig, Gibraltar,".

(5) Ym mharagraff 9 (gwladolion o'r GE)—

(a) yn y pennawd, yn lle "Gwladolion o'r GE" rhodder "Gwladolion o'r UE";

(b) yn is-baragraff (1)—

(i) ym mharagraff (a)(i), yn lle "yn wladolyn o'r GE" rhodder "yn wladolyn o'r UE";

(ii) ym mharagraff (c), ar ôl "y diriogaeth a ffurfir gan" mewnosoder "y Deyrnas Unedig,";

(c) yn lle is-baragraff (1A), rhodder—

"(1A) Nid yw paragraff (c) o is-baragraff (1) yn gymwys i aelod o deulu person—

(a) sydd—

(i) yn wladolyn o'r Deyrnas Unedig sydd wedi arfer hawl i breswylio yn nhiriogaeth Aelod-wladwriaeth o dan Erthygl 7 o Gyfarwyddeb 2004/38; neu

(ii) yn wladolyn o'r UE; a

(b) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y diriogaeth a ffurfir gan y Deyrnas Unedig, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a'r tiriogaethau tramor drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs."

(d) ar ôl is-baragraff (2), mewnosoder—

"(3) Mae unrhyw ddisgrifiad o berson a fyddai wedi dod o fewn y paragraff hwn yn union cyn y diwrnod ymadael i'w drin fel pe bai'n dod o fewn y paragraff hwn ar ac ar ôl y diwrnod ymadael."

(6) Ym mharagraff 10 (gwladolion o'r GE)—

(a) yn is-baragraff (1)(a), yn lle "sy'n wladolyn o'r GE ac eithrio gwladolyn o'r Deyrnas Unedig" rhodder "sy'n wladolyn o'r UE";

(b) yn is-baragraff (1)(ch), ar ôl "y diriogaeth a ffurfir gan" mewnosoder "y Deyrnas Unedig,";

(c) yn is-baragraff (2), yn lle "yn wladolyn o'r GE ac eithrio gwladolyn o'r Deyrnas Unedig", rhodder "yn wladolyn o'r UE".

(7) Yn lle paragraff 11 (plant gwladolion o'r Swistir), rhodder—

"**11.**—(1) Person—

(a) sy'n blentyn i wladolyn o'r Swistir y mae ganddo hawl i gael cymorth yn y Deyrnas Unedig yn rhinwedd Erthygl 3(6) o Atodiad 1 i Gytundeb y Swistir;

(b) sy'n preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs;

(c) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y diriogaeth a ffurfir gan y Deyrnas Unedig, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a'r tiriogaethau tramor drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs; ac

(ch) mewn achos pan oedd preswyliad arferol y person y cyfeirir ato ym mharagraff (c) yn gyfan gwbl neu'n bennaf er mwyn cael addysg lawnamser, a oedd yn preswylio fel arfer yn y diriogaeth a ffurfir gan y Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir yn union cyn y cyfnod o breswyliad arferol y cyfeirir ato ym mharagraff (c).

(2) Mae unrhyw ddisgrifiad o berson a fyddai wedi dod o fewn y paragraff hwn yn union cyn y diwrnod ymadael i'w drin fel pe bai'n dod o fewn y paragraff hwn ar ac ar ôl y diwrnod ymadael."

(8) Ym mharagraff 12(c) (plant gweithwyr o Dwrci), ar ôl "y diriogaeth a ffurfir gan" mewnosoder "y Deyrnas Unedig,".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I4** Rhl. 4 mewn grym ar 31.12.2020 ar ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu (yn unol â 2020 c. 1, Atod. 5 para. 1(1)), gweler **rhl. 1(2)**

### Diwygiadau i Reoliadau Addysg (Athrofa Brifysgol Ewropeaidd) (Cymru) 2014

**5.** Mae Rheoliadau Addysg (Athrofa Brifysgol Ewropeaidd) (Cymru) 2014(**6**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I5** Rhl. 5 mewn grym ar 31.12.2020 ar ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu (yn unol â 2020 c. 1, Atod. 5 para. 1(1)), gweler **rhl. 1(2)**

### Diwygiadau i Atodlen 1

**6.**—(1) Mae Atodlen 1 (myfyrwyr cymwys) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Rhan 1 (dehongli), paragraff 1—

(a) hepgorer "ac eithrio'r Deyrnas Unedig", ym mhob lle y mae'n digwydd;

(b) yn is-baragraffau (7) ac (8), ar ôl "diriogaeth y mae'r" mewnosoder "Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr" ym mhob lle y mae'n digwydd.

(3) Yn Rhan 2 (categorïau)—

(a) yn y paragraffau a ganlyn, ar ôl "y diriogaeth y mae'r" mewnosoder "Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr"—

(i) paragraff 3(d) (personau sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig);

(ii) paragraff 6(1)(c) (gweithwyr, personau cyflogedig, personau hunangyflogedig ac aelodau o'u teuluoedd);

(iii) paragraff 7(b) (gweithwyr, personau cyflogedig, personau hunangyflogedig ac aelodau o'u teuluoedd);

(iv) paragraff 8(1)(d) ac (e) (personau sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig ac sydd wedi arfer hawl i breswylio mewn man arall);

(b) ym mharagraff 9 (gwladolion o'r UE)—

(i) yn lle is-baragraff (1)(a), rhodder—

"(a) sydd, ar y dyddiad perthnasol—

(i) yn wladolyn o'r UE;

(ii) yn wladolyn o'r Deyrnas Unedig sydd wedi arfer hawl i breswylio; neu

(**6**) O.S. 2014/3037 (Cy. 303) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2016/211 (Cy. 84) ac O.S. 2018/814 (Cy. 165).

(iii) yn aelod o deulu person yn is-baragraff (i) neu (ii);";

(ii) yn is-baragraffau (1)(c) a (d) a (2), ar ôl "y diriogaeth y mae'r" mewnosoder "Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr";

(iii) yn is-baragraff (4), yn lle "os yw'r person hwnnw" rhodder "os oedd y person hwnnw yn preswylio yn Gibraltar neu os yw'r person hwnnw";

(iv) ar ôl is-baragraff (4), mewnosoder—

"(5) Mae unrhyw ddisgrifiad o berson a fyddai wedi bod yn gymwys o dan y paragraff hwn yn union cyn y diwrnod ymadael i fod yn gymwys ar ac ar ôl y diwrnod ymadael.";

(c) ym mharagraff 10 (gwladolion o'r UE)—

(i) yn is-baragraff (a), hepgorer "ac eithrio gwladolyn o'r Deyrnas Unedig";

(ii) yn is-baragraff (d), ar ôl "yn y diriogaeth y mae'r" mewnosoder "Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr";

(d) yn lle paragraff 11 (plant gwladolion Swisaidd), rhodder—

"**11.**—(1) Person—

(a) sydd, ar y dyddiad perthnasol, yn blentyn i wladolyn Swisaidd â hawlogaeth i gael cymorth gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn rhinwedd Erthygl 3(6) o Atodiad 1 i Gytundeb y Swistir;

(b) sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ar y dyddiad perthnasol;

(c) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y diriogaeth y mae'r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir yn ei ffurfio drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs; a

(d) mewn achos pan oedd preswylio arferol y person y cyfeirir ato ym mharagraff (c) yn gyfan gwbl neu'n bennaf at y diben o dderbyn addysg lawnamser, a oedd yn preswylio fel arfer yn y diriogaeth y mae'r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr AEE a'r Swistir yn ei ffurfio yn union cyn y cyfnod o breswylio arferol y cyfeirir ato ym mharagraff (c).

(2) Mae unrhyw ddisgrifiad o berson a fyddai wedi bod yn gymwys o dan y paragraff hwn yn union cyn y diwrnod ymadael i fod yn gymwys ar ac ar ôl y diwrnod ymadael.";

(e) ym mharagraff 12(c) (plant gweithwyr Twrcaidd), ar ôl "y diriogaeth y mae'r" mewnosoder "Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I6** Rhl. 6 mewn grym ar 31.12.2020 ar ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu (yn unol â 2020 c. 1, Atod. 5 para. 1(1)), gweler **rhl. 1(2)**

**Diwygiadau i Atodlen 2**

**7.**—(1) Mae Atodlen 2 (cyfraniad y myfyriwr) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Rhan 1 (dehongli), paragraff 1(1), yn y diffiniad o "incwm trethadwy"—

(a) ym mharagraff (b), yn lle "un o Aelod-wladwriaethau eraill yr AEE" rhodder "un o Wladwriaethau'r AEE";

(b) yn lle paragraff (c), rhodder—

"(c) pan fo deddfwriaeth—

(i) y Deyrnas Unedig ac un neu ragor o Wladwriaethau'r AEE neu'r Swistir;

(ii) mwy nag un o Wladwriaethau'r AEE; neu

(iii) un o Wladwriaethau'r AEE a'r Swistir

yn gymwys i'r cyfnod, y ddeddfwriaeth y mae Gweinidogion Cymru o'r farn y bydd y person yn talu'r swm mwyaf o dreth oddi tani yn y cyfnod hwnnw (ac eithrio fel y darperir fel arall ym mharagraff 4),".

(3) Yn Rhan 2 (cyfrifo cyfraniad)—

(a) ym mharagraff 3(1)(b) (cyfrifo incwm gweddilliol y myfyriwr), yn lle "Aelod-wladwriaeth arall" rhodder "Aelod-wladwriaeth";

(b) ym mharagraff 4 (cyfrifo incwm gweddilliol partner y myfyriwr cymwys), yn lle "un o Wladwriaethau eraill yr AEE" rhodder "un o Wladwriaethau'r AEE", ym mhob lle y mae'n digwydd.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I7** Rhl. 7 mewn grym ar 31.12.2020 ar ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu (yn unol â 2020 c. 1, Atod. 5 para. 1(1)), gweler **rhl. 1(2)**

**Diwygiadau i Reoliadau Addysg Uwch (Cyrsiau Cymhwysol, Personau Cymhwysol a Darpariaeth Atodol) (Cymru) 2015**

**8.**—(1) Mae'r Atodlen i Reoliadau Addysg Uwch (Cyrsiau Cymhwysol, Personau Cymhwysol a Darpariaeth Atodol) (Cymru) 2015(**7**) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff 1—

(a) yn is-baragraff (1)—

(i) hepgorer "ac eithrio'r Deyrnas Unedig" ym mhob lle y mae'n digwydd;

(ii) yn y diffiniad o "tiriogaethau tramor", ar ôl "Tiriogaethau Deheuol ac Antarctig Ffrainc" mewnosoder "Gibraltar";

(b) yn is-baragraff (3)—

(i) yn lle "y diriogaeth sy'n ffurfio'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir" rhodder "y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir";

(ii) yn lle "y diriogaeth sy'n ffurfio'r Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a'r tiriogaethau tramor" rhodder "y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a'r tiriogaethau tramor";

(iii) yn lle "y diriogaeth sy'n ffurfio'r Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir, Twrci a'r tiriogaethau tramor" rhodder "y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir, Twrci a'r tiriogaethau tramor";

(c) yn is-baragraff (4)(b) ac (c), ar ôl "i'r diriogaeth sy'n ffurfio'r" mewnosoder "Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr";

(d) yn is-baragraff (5), ar ôl "ardal" mewnosoder "ac eithrio'r Deyrnas Unedig neu Gibraltar".

(**7**) O.S. 2015/1484 (Cy. 163) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2016/276 (Cy. 100) ac O.S. 2018/814 (Cy. 165).

(3) Yn y paragraffau a ganlyn, ar ôl "y diriogaeth sy'n ffurfio'r" mewnosoder "Deyrnas Unedig, yr"—

(a) paragraff 3(d) (personau sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig);

(b) paragraff 6(1)(c) (gweithwyr, personau cyflogedig, personau hunangyflogedig ac aelodau o'u teulu);

(c) paragraff 7(b) (gweithwyr, personau cyflogedig, personau hunangyflogedig ac aelodau o'u teulu).

(4) Ym mharagraff 8 (personau sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig ac sydd wedi arfer hawl i breswylio mewn man arall)—

(a) yn is-baragraff (1)(d), ar ôl "y diriogaeth sy'n ffurfio'r" mewnosoder "Deyrnas Unedig, yr";

(b) yn is-baragraff (1)(e), ar ôl "y diriogaeth sy'n ffurfio'r" mewnosoder "Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr".

(5) Ym mharagraff 9 (gwladolion o'r UE)—

(a) yn is-baragraff (1)(c), ar ôl "y diriogaeth sy'n ffurfio'r" mewnosoder "Deyrnas Unedig, yr";

(b) yn lle is-baragraff (2), rhodder—

"(2) Nid yw paragraff (c) o is-baragraff (1) yn gymwys i aelod o deulu person—

(a) sydd—

(i) yn wladolyn o'r Deyrnas Unedig sydd wedi arfer hawl i breswylio yn nhiriogaeth Aelod-wladwriaeth o dan Erthygl 7(1) o Gyfarwyddeb 2004/38; neu

(ii) yn wladolyn o'r UE; a

(b) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a'r tiriogaethau tramor drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs.";

(c) ar ôl is-baragraff (3), mewnosoder—

"(4) Mae unrhyw ddisgrifiad o berson a fyddai wedi dod o fewn y paragraff hwn yn union cyn y diwrnod ymadael i'w drin fel pe bai'n dod o fewn y paragraff hwn ar ac ar ôl y diwrnod ymadael."

(6) Ym mharagraff 10 (gwladolion o'r UE)—

(a) yn is-baragraff (1)(a), hepgorer "ac eithrio gwladolyn o'r Deyrnas Unedig";

(b) yn is-baragraff (1)(d), ar ôl "y diriogaeth sy'n ffurfio'r" mewnosoder "Deyrnas Unedig, yr";

(c) yn is-baragraff (2), hepgorer "ac eithrio gwladolyn o'r Deyrnas Unedig".

(7) Yn lle paragraff 11 (plant gwladolion Swisaidd), rhodder—

"**11.**—(1) Person—

(a) sy'n blentyn i wladolyn Swisaidd ac sydd â hawlogaeth i gael cymorth yn y Deyrnas Unedig yn rhinwedd Erthygl 3(6) o Atodiad 1 i Gytundeb y Swistir;

(b) sy'n preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs;

(c) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a'r tiriogaethau tramor

drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs; a

(d) mewn achos pan oedd y preswyliad arferol y cyfeirir ato ym mharagraff (c) yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddiben cael addysg lawnamser, a oedd yn preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir yn union cyn y cyfnod o breswylio fel arfer y cyfeirir ato ym mharagraff (c).

(2) Mae unrhyw ddisgrifiad o berson a fyddai wedi dod o fewn y paragraff hwn yn union cyn y diwrnod ymadael i'w drin fel pe bai'n dod o fewn y paragraff hwn ar ac ar ôl y diwrnod ymadael."

(8) Ym mharagraff 12(c) (plant gweithwyr Twrcaidd), ar ôl "y diriogaeth sy'n ffurfio'r" mewnosoder "Deyrnas Unedig, yr".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I8** Rhl. 8 mewn grym ar 31.12.2020 ar ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu (yn unol â 2020 c. 1, Atod. 5 para. 1(1)), gweler **rhl. 1(2)**

### Diwygiadau i Reoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2017

**9.** Mae Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2017(**8**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I9** Rhl. 9 mewn grym ar 31.12.2020 ar ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu (yn unol â 2020 c. 1, Atod. 5 para. 1(1)), gweler **rhl. 1(2)**

### Diwygiad i reoliad 2

**10.** Yn rheoliad 2(1) (dehongli), yn y diffiniad o "blwyddyn Erasmus" ("*Erasmus year*")—

(a) ar ôl "blwyddyn academaidd cwrs" mewnosoder ", pa un a ddechreuodd y flwyddyn academaidd honno cyn y diwrnod ymadael ai peidio,";

(b) ar ôl "pryd y bydd myfyriwr", mewnosoder ", neu yr oedd myfyriwr, yn union cyn y diwrnod ymadael,";

(c) yn is-baragraff (c)—

(i) ym mharagraff (ii)(aa), o flaen "mewn perthynas â'r" mewnosoder "yn ddarostyngedig i baragraff (iii)";

(ii) ar ôl paragraff (ii), mewnosoder—

"(iii) mewn perthynas â blwyddyn academaidd sy'n dechrau cyn 1 Awst 2019, ni fydd unrhyw un neu ragor o gyfnodau o astudio llawnamser yn y sefydliad yn y Deyrnas Unedig ar ôl y diwrnod ymadael yn cael eu cyfrif at ddibenion paragraff (ii)(aa);".

(**8**) O.S. 2017/47 (Cy. 21) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2018/191 (Cy. 42) ac O.S. 2018/814 (Cy. 165).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I10** Rhl. 10 mewn grym ar 31.12.2020 ar ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu (yn unol â 2020 c. 1, Atod. 5 para. 1(1)), gweler **rhl. 1(2)**

### Diwygiad i reoliad 15

**11.** Yn rheoliad 15(d) (digwyddiadau), ar ôl "gwladolyn o'r UE" mewnosoder "neu berson sy'n gymwys ac eithrio fel aelod o'r teulu o dan baragraff 9 o Atodlen 1 yn rhinwedd paragraff 9(5) o'r Atodlen honno".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I11** Rhl. 11 mewn grym ar 31.12.2020 ar ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu (yn unol â 2020 c. 1, Atod. 5 para. 1(1)), gweler **rhl. 1(2)**

### Diwygiadau i reoliad 30

**12.** Yn rheoliad 30(1) (grantiau ar gyfer dibynyddion – dehongli), yn is-baragraff (o)—

(a) ym mharagraff (ii), yn lle "Aelod-wladwriaeth arall" rhodder "Aelod-wladwriaeth";

(b) yn lle paragraff (iii), rhodder—

"(iii) pan fo deddfwriaeth—

(aa) y Deyrnas Unedig ac un neu ragor o Aelod-wladwriaethau; neu

(bb) mwy nag un Aelod-wladwriaeth

yn gymwys i'r cyfnod, cyfanswm incwm person o bob ffynhonnell fel y'i pennir at ddibenion y ddeddfwriaeth treth incwm y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried bod cyfanswm incwm person yn y cyfnod hwnnw ar ei fwyaf odani,".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I12** Rhl. 12 mewn grym ar 31.12.2020 ar ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu (yn unol â 2020 c. 1, Atod. 5 para. 1(1)), gweler **rhl. 1(2)**

### Diwygiad i reoliad 65

**13.** Yn rheoliad 65(4)(d) (myfyrwyr sy'n dod yn gymwys yn ystod y flwyddyn academaidd), ar ôl "gwladolyn o'r UE" mewnosoder "neu berson sy'n gymwys ac eithrio fel aelod o'r teulu o dan baragraff 9 o Atodlen 1 yn rhinwedd paragraff 9(5) o'r Atodlen honno".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I13** Rhl. 13 mewn grym ar 31.12.2020 ar ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu (yn unol â 2020 c. 1, Atod. 5 para. 1(1)), gweler **rhl. 1(2)**

**Diwygiad i reoliad 82**

**14.** Yn rheoliad 82(4)(d) (myfyrwyr sy'n dod yn gymwys yn ystod y flwyddyn academaidd), ar ôl "gwladolyn o'r UE" mewnosoder "neu berson sy'n gymwys ac eithrio fel aelod o'r teulu o dan baragraff 9 o Atodlen 1 yn rhinwedd paragraff 9(5) o'r Atodlen honno".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I14** Rhl. 14 mewn grym ar 31.12.2020 ar ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu (yn unol â 2020 c. 1, Atod. 5 para. 1(1)), gweler **rhl. 1(2)**

**Diwygiadau i reoliad 95**

**15.** Yn rheoliad 95(1) (grantiau rhan-amser ar gyfer dibynyddion – dehongli), yn is-baragraff (o)—

(a) ym mharagraff (ii), yn lle "Aelod-wladwriaeth arall" rhodder "Aelod-wladwriaeth";

(b) yn lle paragraff (iii), rhodder—

"(iii) pan fo deddfwriaeth—

(aa) y Deyrnas Unedig ac un neu ragor o Aelod-wladwriaethau; neu

(bb) mwy nag un Aelod-wladwriaeth

yn gymwys i'r cyfnod, cyfanswm incwm person o bob ffynhonnell fel y'i pennir at ddibenion y ddeddfwriaeth treth incwm y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried bod cyfanswm incwm person yn y cyfnod hwnnw ar ei fwyaf odani,".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I15** Rhl. 15 mewn grym ar 31.12.2020 ar ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu (yn unol â 2020 c. 1, Atod. 5 para. 1(1)), gweler **rhl. 1(2)**

**Diwygiadau i Atodlen 1**

**16.**—(1) Mae Atodlen 1 (myfyrwyr cymwys) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Rhan 1 (dehongli), paragraff 1—

(a) yn is-baragraff (1), hepgorer "ac eithrio'r Deyrnas Unedig" ym mhob lle y mae'n digwydd;

(b) yn is-baragraffau (4) a (5), ar ôl "diriogaeth sy'n ffurfio'r" neu "diriogaeth sydd yn ffurfio'r" mewnosoder "Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr" ym mhob lle y maent yn digwydd, ac ar ôl "diriogaeth a ffurfir gan" mewnosoder "y Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr";

(c) yn is-baragraff (6), ar ôl "ardal" mewnosoder "ac eithrio'r Deyrnas Unedig neu Gibraltar".

(3) Yn Rhan 2 (categorïau)—

(a) yn y paragraffau a ganlyn, ar ôl "y diriogaeth sy'n ffurfio'r" mewnosoder "Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr"—

(i) paragraff 3(d) (personau sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig);

(ii) paragraff 6(1)(c) (gweithwyr, personau cyflogedig, personau hunangyflogedig ac aelodau o'u teuluoedd);

(iii) paragraff 7(b) (gweithwyr, personau cyflogedig, personau hunangyflogedig ac aelodau o'u teuluoedd);

(iv) paragraff 8(1)(d) ac (e) (personau sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig ac sydd wedi arfer hawl i breswylio yn rhywle arall);

(b) ym mharagraff 9 (gwladolion o'r UE)—

(i) yn lle is-baragraff (1)(a), rhodder—

"(a) sydd ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs—

(i) yn wladolyn o'r UE;

(ii) yn wladolyn o'r Deyrnas Unedig sydd wedi arfer hawl i breswylio; neu

(iii) yn aelod o deulu person yn is-baragraff (i) neu (ii);";

(ii) yn is-baragraffau (1)(c) a (d) a (2), ar ôl "y diriogaeth sy'n ffurfio'r" mewnosoder "Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr";

(iii) yn is-baragraff (4), ar ôl "os yw'r person hwnnw" mewnosoder "wedi preswylio yn Gibraltar neu";

(iv) ar ôl is-baragraff (4), mewnosoder—

"(5) Mae unrhyw ddisgrifiad o berson a fyddai wedi bod yn gymwys o dan y paragraff hwn yn union cyn y diwrnod ymadael i fod yn gymwys ar ac ar ôl y diwrnod ymadael.";

(c) ym mharagraff 10 (gwladolion o'r UE)—

(i) yn is-baragraff (1)(a), hepgorer "ac eithrio gwladolyn o'r Deyrnas Unedig";

(ii) yn is-baragraff (1)(d), ar ôl "y diriogaeth sy'n ffurfio'r" mewnosoder "Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr,";

(iii) yn is-baragraff (2), hepgorer "ac eithrio gwladolyn o'r Deyrnas Unedig";

(d) yn lle paragraff 11 (plant gwladolion Swisaidd), rhodder—

"**11.**—(1) Person—

(a) sy'n blentyn i wladolyn Swisaidd y mae ganddo hawlogaeth i gael cymorth yn y Deyrnas Unedig yn rhinwedd Erthygl 3(6) o Atodiad 1 i Gytundeb y Swistir;

(b) sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs;

(c) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs; a

(d) mewn achos lle'r oedd ei breswylio arferol y cyfeirir ato ym mharagraff (c) yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddiben derbyn addysg lawnamser, a oedd yn preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir yn union cyn y cyfnod preswylio arferol y cyfeirir ato ym mharagraff (c).

(2) Mae unrhyw ddisgrifiad o berson a fyddai wedi bod yn gymwys o dan y paragraff hwn yn union cyn y diwrnod ymadael i fod yn gymwys ar ac ar ôl y diwrnod ymadael.";

(e) ym mharagraff 12(c) (plant gweithwyr Twrcaidd), ar ôl "y diriogaeth sydd yn ffurfio'r" mewnosoder "Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I16** Rhl. 16 mewn grym ar 31.12.2020 ar ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu (yn unol â 2020 c. 1, Atod. 5 para. 1(1)), gweler **rhl. 1(2)**

### Diwygiad i Atodlen 4

**17.** Yn Atodlen 4 (benthyciadau at ffioedd coleg), paragraff 6(c) ar ôl "gwladolyn o'r UE" mewnosoder "neu berson sy'n gymwys ac eithrio fel aelod o'r teulu o dan baragraff 9 o Atodlen 1 yn rhinwedd paragraff 9(5) o'r Atodlen honno".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I17** Rhl. 17 mewn grym ar 31.12.2020 ar ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu (yn unol â 2020 c. 1, Atod. 5 para. 1(1)), gweler **rhl. 1(2)**

### Diwygiadau i Atodlen 5

**18.**—(1) Mae Atodlen 5 (asesiad ariannol) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff 1(1) (diffiniadau), paragraff (n)—

(a) yn is-baragraff (ii), yn lle "Aelod-wladwriaeth arall" rhodder "Aelod-wladwriaeth";

(b) yn lle is-baragraff (iii), rhodder—

"(iii) pan fo deddfwriaeth—

(aa) y Deyrnas Unedig ac un neu ragor o Aelod-wladwriaethau; neu

(bb) mwy nag un Aelod-wladwriaeth

yn gymwys i'r cyfnod, cyfanswm incwm person o bob ffynhonnell fel y'i pennir at ddibenion y ddeddfwriaeth treth incwm y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried bod cyfanswm incwm person yn y cyfnod hwnnw ar ei fwyaf odani (ac eithrio fel y darperir fel arall ym mharagraff 5),";

(3) Ym mharagraff 2(1)(g) (myfyriwr cymwys annibynnol), o flaen "Undeb Ewropeaidd" mewnosoder "Deyrnas Unedig, Gibraltar a'r".

(4) Yn y paragraffau a ganlyn, yn lle "Aelod-wladwriaeth arall" rhodder "Aelod-wladwriaeth"—

(a) paragraff 4(1)(b) (cyfrifo incwm gweddilliol y myfyriwr cymwys);

(b) paragraff 5 (cyfrifo incwm gweddilliol y rhiant)—

(i) is-baragraff (1)(a);

(ii) is-baragraff (6) ym mhob lle y mae'n digwydd;

(iii) is-baragraff (7).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I18** Rhl. 18 mewn grym ar 31.12.2020 ar ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu (yn unol â 2020 c. 1, Atod. 5 para. 1(1)), gweler **rhl. 1(2)**

**Diwygiadau i Atodlen 6**

**19.**—(1) Mae Atodlen 6 (asesiad ariannol – grantiau rhan-amser ar gyfer dibynyddion) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff 1(1) (diffiniadau), is-baragraff (j)—

(a) ym mharagraff (ii), yn lle "Aelod-wladwriaeth arall" rhodder "Aelod-wladwriaeth";

(b) yn lle paragraff (iii), rhodder—

"(iii) pan fo deddfwriaeth—

(aa) y Deyrnas Unedig ac un neu ragor o Aelod-wladwriaethau; neu

(bb) mwy nag un Aelod-wladwriaeth

yn gymwys i'r cyfnod, cyfanswm incwm person o bob ffynhonnell fel y'i pennir at ddibenion y ddeddfwriaeth treth incwm y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried bod cyfanswm incwm person yn y cyfnod hwnnw ar ei fwyaf odani (ac eithrio fel y darperir fel arall ym mharagraff 4),".

(3) Yn y paragraffau a ganlyn, yn lle "Aelod-wladwriaeth arall" rhodder "Aelod-wladwriaeth"—

(a) paragraff 3(1) (cyfrifo incwm gweddilliol y myfyriwr rhan-amser cymwys);

(b) paragraff 4 (cyfrifo incwm gweddilliol partner myfyriwr rhan-amser cymwys)—

(i) is-baragraff (1)(a);

(ii) is-baragraff (6) ym mhob lle y mae'n digwydd;

(iii) is-baragraff (7).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I19** Rhl. 19 mewn grym ar 31.12.2020 ar ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu (yn unol â 2020 c. 1, Atod. 5 para. 1(1)), gweler **rhl. 1(2)**

**Diwygiadau i Reoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Feistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2017**

**20.** Mae Rheoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Feistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2017(**9**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I20** Rhl. 20 mewn grym ar 31.12.2020 ar ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu (yn unol â 2020 c. 1, Atod. 5 para. 1(1)), gweler **rhl. 1(2)**

**Diwygiad i reoliad 8**

**21.** Yn rheoliad 8(d) (digwyddiadau), ar ôl "gwladolyn UE" mewnosoder "neu berson sy'n gymwys ac eithrio fel aelod o'r teulu o dan baragraff 9 o Atodlen 1 yn rhinwedd paragraff 9(5) o'r Atodlen honno".

(**9**) O.S. 2017/523 (Cy. 109) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2017/712 (Cy. 169), O.S. 2018/277 (Cy. 53) ac O.S. 2018/814 (Cy. 165).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I21** Rhl. 21 mewn grym ar 31.12.2020 ar ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu (yn unol â 2020 c. 1, Atod. 5 para. 1(1)), gweler **rhl. 1(2)**

**Diwygiadau i Atodlen 1**

**22.**—(1) Mae Atodlen 1 (myfyrwyr cymwys) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Rhan 1 (dehongli), paragraff 1—

(a) yn is-baragraff (1), hepgorer "ac eithrio'r Deyrnas Unedig" ym mhob lle y mae'n digwydd;

(b) yn is-baragraffau (4) a (5), ar ôl "diriogaeth sy'n ffurfio'r" mewnosoder "Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr" ym mhob lle y mae'n digwydd;

(c) yn is-baragraff (6), ar ôl "ardal" mewnosoder "ac eithrio'r Deyrnas Unedig neu Gibraltar".

(3) Yn Rhan 2 (categorïau)—

(a) yn y paragraffau a ganlyn, ar ôl "y diriogaeth sy'n ffurfio'r" mewnosoder "Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr"—

(i) paragraff 3(d) (personau sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig);

(ii) paragraff 6(1)(c) (gweithwyr, personau cyflogedig, personau hunangyflogedig ac aelodau o'u teuluoedd);

(iii) paragraff 7(b) (gweithwyr, personau cyflogedig, personau hunangyflogedig ac aelodau o'u teuluoedd);

(iv) paragraff 8(1)(d) ac (e) (personau sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig ac sydd wedi arfer hawl i breswylio yn rhywle arall);

(b) ym mharagraff 9 (gwladolion UE)—

(i) yn lle is-baragraff (1)(a), rhodder—

"(a) sydd, ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs—

(i) yn wladolyn UE;

(ii) yn wladolyn o'r Deyrnas Unedig sydd wedi arfer hawl i breswylio; neu

(iii) yn aelod o deulu person yn is-baragraff (i) neu (ii);";

(ii) yn is-baragraffau (1)(c) a (d) a (2), ar ôl "y diriogaeth sy'n ffurfio'r" mewnosoder "Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr";

(iii) yn is-baragraff (4), ar ôl "os yw'r person hwnnw" mewnosoder "wedi preswylio yn Gibraltar neu";

(iv) ar ôl is-baragraff (4), mewnosoder—

"(5) Mae unrhyw ddisgrifiad o berson a fyddai wedi bod yn gymwys o dan y paragraff hwn yn union cyn y diwrnod ymadael i fod yn gymwys ar ac ar ôl y diwrnod ymadael.";

(c) ym mharagraff 10 (gwladolion UE)—

(i) yn is-baragraff (1)(a), hepgorer "ac eithrio gwladolyn o'r Deyrnas Unedig";

(ii) yn is-baragraff (1)(d), ar ôl "y diriogaeth sy'n ffurfio'r" mewnosoder "Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr,";

(iii) yn is-baragraff (2), hepgorer "ac eithrio gwladolyn o'r Deyrnas Unedig";

(d) yn lle paragraff 11 (plant gwladolion Swisaidd), rhodder—

"**11.**—(1) Person—

(a) sy'n blentyn i wladolyn Swisaidd y mae ganddo hawlogaeth i gael cymorth yn y Deyrnas Unedig yn rhinwedd Erthygl 3(6) o Atodiad 1 i Gytundeb y Swistir;

(b) sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs;

(c) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs; a

(d) mewn achos pan oedd ei breswylio fel arfer, y cyfeirir ato ym mharagraff (c), yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddiben cael addysg lawnamser, a oedd yn preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir yn union cyn y cyfnod o breswylio fel arfer y cyfeirir ato ym mharagraff (c).

(2) Mae unrhyw ddisgrifiad o berson a fyddai wedi bod yn gymwys o dan y paragraff hwn yn union cyn y diwrnod ymadael i fod yn gymwys ar ac ar ôl y diwrnod ymadael.";

(e) ym mharagraff 12(c) (plant gweithwyr Twrcaidd), ar ôl "y diriogaeth sy'n ffurfio'r" mewnosoder "Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I22** Rhl. 22 mewn grym ar 31.12.2020 ar ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu (yn unol â 2020 c. 1, Atod. 5 para. 1(1)), gweler **rhl. 1(2)**

### Diwygiadau i Reoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018

**23.** Mae Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018(**10**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I23** Rhl. 23 mewn grym ar 31.12.2020 ar ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu (yn unol â 2020 c. 1, Atod. 5 para. 1(1)), gweler **rhl. 1(2)**

### Diwygiad i reoliad 80

**24.** Yn rheoliad 80(2)(b)(iii) (cymhwyso i gael benthyciad at ffioedd dysgu yn ystod y flwyddyn academaidd), ar ôl "gwladolyn o'r UE" mewnosoder "neu berson sy'n gymwys ac eithrio fel aelod o'r teulu o dan baragraff 6(1) o Atodlen 2 yn rhinwedd paragraff 6(1A) o'r Atodlen honno".

(**10**) O.S. 2018/191 (Cy. 42) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2018/813 (Cy. 164) ac O.S. 2018/814 (Cy. 165).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I24** Rhl. 24 mewn grym ar 31.12.2020 ar ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu (yn unol â 2020 c. 1, Atod. 5 para. 1(1)), gweler **rhl. 1(2)**

### Diwygiad i Atodlen 1

**25.** Ym mharagraff 4 (ystyr blwyddyn Erasmus)—

(a) yn is-baragraff (1), ar ôl "yn flwyddyn academaidd" mewnosoder ", pa un a ddechreuodd y flwyddyn academaidd honno cyn y diwrnod ymadael ai peidio,";

(b) yn is-baragraff (2), Amod B—

(i) ym mharagraff (c)—

(aa) o flaen "yn ystod y flwyddyn academaidd honno" mewnosoder "yn ddarostyngedig i baragraff (d)";

(bb) ar y diwedd, yn lle "." rhodder ",";

(ii) ar ôl paragraff (c), mewnosoder—

"(d) mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd sy'n dechrau cyn 1 Awst 2019, ni fydd unrhyw un neu ragor o gyfnodau o astudio llawnamser yn y sefydliad yng Nghymru, Lloegr neu'r Alban ar ôl y diwrnod ymadael yn cael eu cyfrif at ddibenion paragraff (c)."

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I25** Rhl. 25 mewn grym ar 31.12.2020 ar ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu (yn unol â 2020 c. 1, Atod. 5 para. 1(1)), gweler **rhl. 1(2)**

### Diwygiadau i Atodlen 2

**26.**—(1) Mae Atodlen 2 (categorïau o fyfyrwyr cymwys) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn is-baragraff 1(2)(d) (categori 1 – personau sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig), ar ôl "y diriogaeth sy'n ffurfio'r" mewnosoder "Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr,".

(3) Ym mharagraff 4 (categori 4 – gweithwyr, personau cyflogedig, personau hunangyflogedig ac aelodau o'u teuluoedd)—

(a) yn is-baragraffau (1)(b) a (2)(b), ar ôl "y diriogaeth sy'n ffurfio'r" mewnosoder "Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr";

(b) yn is-baragraffau (3) ac (4), hepgorer "ac eithrio'r Deyrnas Unedig" ym mhob lle y mae'n digwydd.

(4) Ym mharagraff 5(1)(d) ac (e) (categori 5 – personau sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig ac sydd wedi arfer hawl i breswylio yn rhywle arall), ar ôl "y diriogaeth sy'n ffurfio'r" mewnosoder "Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr,".

(5) Ym mharagraff 6 (categori 6 – gwladolion UE)—

(a) yn lle is-baragraff (1)(a), rhodder—

"(a) sydd, ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs—

(i) yn wladolyn UE,

(ii) yn wladolyn o'r Deyrnas Unedig sydd wedi arfer hawl i breswylio, neu

(iii) yn aelod o deulu person yn is-baragraff (i) neu (ii),";

(b) yn is-baragraffau (1)(c) a (d), ar ôl "y diriogaeth sy'n ffurfio'r" mewnosoder "Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr";

(c) ar ôl is-baragraff (1), mewnosoder—

"(1A) Mae unrhyw ddisgrifiad o berson a fyddai wedi bod yn gymwys o dan is-baragraff (1) yn union cyn y diwrnod ymadael i fod yn gymwys ar ac ar ôl y diwrnod ymadael.";

(d) yn is-baragraff (2)(a), hepgorer "ac eithrio gwladolyn o'r Deyrnas Unedig";

(e) yn is-baragraff (2)(d), ar ôl "y diriogaeth sy'n ffurfio'r" mewnosoder "Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr,";

(f) yn lle is-baragraff (4), rhodder—

"(4) At ddibenion is-baragraff (1)(a), mae gwladolyn o'r Deyrnas Unedig wedi arfer hawl i breswylio os yw'r person hwnnw wedi preswylio yn Gibraltar neu wedi arfer hawl o dan Erthygl 7 o Gyfarwyddeb 2004/38 neu unrhyw hawl gyfatebol o dan Gytundeb yr AEE neu Gytundeb y Swistir mewn gwladwriaeth ac eithrio'r Deyrnas Unedig."

(6) Yn lle paragraff 7 (categori 7 – plant gwladolion Swisaidd), rhodder—

"**7. Categori 7 – Plant gwladolion Swisaidd**

(1) Person—

(a) sy'n blentyn i wladolyn Swisaidd y mae ganddo hawlogaeth i gael cymorth yn y Deyrnas Unedig yn rhinwedd Erthygl 3(6) o Atodiad 1 i Gytundeb y Swistir;

(b) sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs;

(c) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs; a

(d) mewn achos pan oedd ei breswylio fel arfer, y cyfeirir ato ym mharagraff (c), yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddiben cael addysg lawnamser, a oedd yn preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir yn union cyn y cyfnod o breswylio fel arfer y cyfeirir ato ym mharagraff (c).

(2) Mae unrhyw ddisgrifiad o berson a fyddai wedi bod yn gymwys o dan y paragraff hwn yn union cyn y diwrnod ymadael i fod yn gymwys ar ac ar ôl y diwrnod ymadael."

(7) Ym mharagraff 8(1)(c) (categori 8 – plant gweithwyr Twrcaidd), ar ôl "y diriogaeth sy'n ffurfio'r" mewnosoder "Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr".

(8) Ym mharagraff 9 (preswylio fel arfer – darpariaeth ychwanegol)—

(a) ar ôl "diriogaeth sy'n ffurfio'r" mewnosoder "Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr" ym mhob lle y mae'n digwydd;

(b) yn is-baragraff (5), ar ôl "ardal" mewnosoder "ac eithrio'r Deyrnas Unedig neu Gibraltar".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I26** Rhl. 26 mewn grym ar 31.12.2020 ar ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu (yn unol â 2020 c. 1, Atod. 5 para. 1(1)), gweler **rhl. 1(2)**

**Diwygiadau i Atodlen 3**

**27.**—(1) Mae Atodlen 3 (cyfrifo incwm) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff 4(1) (myfyrwyr cymwys annibynnol), yn Achos 6, o flaen "Undeb Ewropeaidd" mewnosoder "Deyrnas Unedig, Gibraltar a'r".

(3) Ym mharagraff 9 (incwm trethadwy)—

(a) yn is-baragraff (1)(b), yn lle "Aelod-wladwriaeth arall" rhodder "Aelod-wladwriaeth";

(b) yn lle is-baragraff (2), rhodder—

"(2) At ddibenion is-baragraff (1)(b), pan fo deddfwriaeth treth incwm—

(a) y Deyrnas Unedig ac un neu ragor o Aelod-wladwriaethau, neu

(b) mwy nag un Aelod-wladwriaeth

yn gymwys i'r person mewn cysylltiad â'r flwyddyn sydd o dan ystyriaeth, cyfanswm incwm y person o bob ffynhonnell yw'r swm sy'n deillio o'r penderfyniad sy'n arwain at swm mwyaf cyfanswm yr incwm, gan gynnwys unrhyw incwm y mae'n ofynnol ei ystyried o dan baragraff 18."

(4) Yn y paragraffau a ganlyn, yn lle "Aelod-wladwriaeth arall" rhodder "Aelod-wladwriaeth"—

(a) paragraff 11 (didyniadau at ddiben cyfrifo incwm gweddilliol myfyriwr cymwys), Didyniad B;

(b) paragraff 15 (didyniadau at ddiben cyfrifo incwm gweddilliol personau ac eithrio myfyriwr cymwys), Didyniad A;

(c) paragraff 18 (trin incwm nas trinnir fel incwm at ddibenion treth incwm), ym mhob lle y mae'n digwydd;

(d) paragraff 19(1) (incwm P mewn arian cyfred ac eithrio sterling).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I27** Rhl. 27 mewn grym ar 31.12.2020 ar ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu (yn unol â 2020 c. 1, Atod. 5 para. 1(1)), gweler **rhl. 1(2)**

**Diwygiad i Atodlen 5**

**28.**—(1) Mae Atodlen 5 (benthyciadau at ffioedd colegau Oxbridge) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff 4(2)(c) (myfyrwyr sy'n dod yn gymwys yn ystod blwyddyn academaidd), ar ôl "gwladolyn UE" mewnosoder "neu berson sy'n gymwys ac eithrio fel aelod o'r teulu o dan baragraff 6(1) o Atodlen 2 yn rhinwedd paragraff 6(1A) o'r Atodlen honno".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I28** Rhl. 28 mewn grym ar 31.12.2020 ar ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu (yn unol â 2020 c. 1, Atod. 5 para. 1(1)), gweler **rhl. 1(2)**

**Diwygiadau i Reoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Ddoethurol Ôl-raddedig) (Cymru) 2018**

**29.** Mae Rheoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Ddoethurol Ôl-raddedig) (Cymru) 2018(**11**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I29** Rhl. 29 mewn grym ar 31.12.2020 ar ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu (yn unol â 2020 c. 1, Atod. 5 para. 1(1)), gweler **rhl. 1(2)**

**Diwygiad i reoliad 8**

**30.** Yn rheoliad 8(d) (digwyddiadau), ar ôl "gwladolyn UE" mewnosoder "neu berson sy'n gymwys ac eithrio fel aelod o'r teulu o dan baragraff 10 o Atodlen 1 yn rhinwedd paragraff 10(5) o'r Atodlen honno".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I30** Rhl. 30 mewn grym ar 31.12.2020 ar ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu (yn unol â 2020 c. 1, Atod. 5 para. 1(1)), gweler **rhl. 1(2)**

**Diwygiadau i Atodlen 1**

**31.**—(1) Mae Atodlen 1 (myfyrwyr cymwys) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Rhan 1, paragraff 1 (dehongli)—

(a) yn is-baragraff (1), hepgorer "ac eithrio'r Deyrnas Unedig" ym mhob lle y mae'n digwydd;

(b) yn is-baragraffau (4) a (5), ar ôl "diriogaeth sy'n ffurfio'r" mewnosoder "Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr" ym mhob lle y mae'n digwydd;

(c) yn is-baragraff (6), ar ôl "ardal" mewnosoder "ac eithrio'r Deyrnas Unedig neu Gibraltar".

(3) Yn Rhan 2 (categorïau)—

(a) yn y paragraffau a ganlyn, ar ôl "y diriogaeth sy'n ffurfio'r" mewnosoder "Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr"—

(i) paragraff 3(d) (personau sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig);

(ii) paragraff 7(1)(c) (gweithwyr, personau cyflogedig, personau hunangyflogedig ac aelodau o'u teuluoedd);

(iii) paragraff 8(b) (gweithwyr, personau cyflogedig, personau hunangyflogedig ac aelodau o'u teuluoedd);

(iv) paragraff 9(1)(d) ac (e) (personau sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig ac sydd wedi arfer hawl i breswylio yn rhywle arall);

(b) ym mharagraff 10 (gwladolion UE)—

(i) yn lle is-baragraff (1)(a), rhodder—

"(a) sydd, ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs—

(**11**) O.S. 2018/656 (Cy. 124) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2018/814 (Cy. 165).

(i) yn wladolyn UE;

(ii) yn wladolyn o'r Deyrnas Unedig sydd wedi arfer hawl i breswylio; neu

(iii) yn aelod o deulu person yn is-baragraff (i) neu (ii);";

(ii) yn is-baragraffau (1)(c) a (d) a (2), ar ôl "y diriogaeth sy'n ffurfio'r" mewnosoder "Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr";

(iii) yn is-baragraff (4), ar ôl "os yw'r person hwnnw" mewnosoder "wedi preswylio yn Gibraltar neu";

(iv) ar ôl is-baragraff (4), mewnosoder—

"(5) Mae unrhyw ddisgrifiad o berson a fyddai wedi bod yn gymwys o dan y paragraff hwn yn union cyn y diwrnod ymadael i fod yn gymwys ar ac ar ôl y diwrnod ymadael.";

(c) ym mharagraff 11 (gwladolion UE)—

(i) yn is-baragraff (1)(a), hepgorer "ac eithrio gwladolyn o'r Deyrnas Unedig";

(ii) yn is-baragraff (1)(d), ar ôl "y diriogaeth sy'n ffurfio'r" mewnosoder "Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr,";

(iii) yn is-baragraff (2), hepgorer "ac eithrio gwladolyn o'r Deyrnas Unedig";

(d) yn lle paragraff 12 (plant gwladolion Swisaidd), rhodder—

"**12.**—(1) Person—

(a) sy'n blentyn i wladolyn Swisaidd y mae ganddo hawlogaeth i gael cymorth yn y Deyrnas Unedig yn rhinwedd Erthygl 3(6) o Atodiad 1 i Gytundeb y Swistir;

(b) sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs;

(c) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs;

(d) mewn achos pan oedd ei breswylio fel arfer, y cyfeirir ato ym mharagraff (c), yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddiben cael addysg lawnamser, a oedd yn preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir yn union cyn y cyfnod o breswylio fel arfer y cyfeirir ato ym mharagraff (c).

(2) Mae unrhyw ddisgrifiad o berson a fyddai wedi bod yn gymwys o dan y paragraff hwn yn union cyn y diwrnod ymadael i fod yn gymwys ar ac ar ôl y diwrnod ymadael.";

(e) ym mharagraff 13(c) (plant gweithwyr Twrcaidd), ar ôl "y diriogaeth sy'n ffurfio'r" mewnosoder "Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I31** Rhl. 31 mewn grym ar 31.12.2020 ar ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu (yn unol â 2020 c. 1, Atod. 5 para. 1(1)), gweler **rhl. 1(2)**

*Kirsty Williams*
Y Gweinidog Addysg, un o Weinidogion Cymru

4 Mawrth 2019

PROSPECTIVE

---

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio—

(a) Rheoliadau Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) (Cymru) 2007;

(b) Rheoliadau Addysg (Athrofa Brifysgol Ewropeaidd) (Cymru) 2014;

(c) Rheoliadau Addysg Uwch (Cyrsiau Cymhwysol, Personau Cymhwysol a Darpariaeth Atodol) (Cymru) 2015;

(d) Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2017;

(e) Rheoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Feistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2017;

(f) Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018 ("y Rheoliadau Cymorth i Fyfyrwyr"); ac

(g) Rheoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Ddoethurol Ôl-raddedig) (Cymru) 2018.

Y prif ddiwygiadau y mae'r Rheoliadau hyn yn eu gwneud i'r Rheoliadau Cymorth i Fyfyrwyr yw fel a ganlyn.

Mae rheoliad 25 yn diwygio'r diffiniad o "blwyddyn Erasmus" ym mharagraff 4(1) o Atodlen 1 i'r Rheoliadau Cymorth i Fyfyrwyr fel bod y diffiniad hwn yn gymwys mewn perthynas â blynyddoedd academaidd sy'n dechrau cyn neu ar ôl y diwrnod ymadael.

Mae rheoliad 26(5)(a) ac (c) yn diwygio paragraff 6 o Atodlen 2 er mwyn sicrhau y bydd person a fyddai wedi bod yn gymwys i gael cymorth o dan y paragraff hwn cyn y diwrnod ymadael yn parhau i fod yn gymwys ar ac ar ôl y diwrnod ymadael. Mae rheoliad 26(6) yn gwneud darpariaeth gyfatebol mewn perthynas ag unrhyw berson a fyddai wedi bod yn gymwys o dan baragraff 7 o Atodlen 2 yn union cyn y diwrnod ymadael.

Mae rheoliadau 24 ac 28 yn ganlyniadol i reoliad 26(5)(c) ac yn diwygio rheoliad 80 o'r Rheoliadau Cymorth i Fyfyrwyr a pharagraff 4(2)(c) o Atodlen 5 iddynt yn y drefn honno.

Mae gweddill rheoliad 26 a rheoliad 27 yn diwygio cyfeiriadau at "Aelod-wladwriaeth" ac "y diriogaeth sy'n ffurfio'r AEE" i adlewyrchu ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd.

Mae rheoliadau 2 i 4 yn gwneud diwygiadau cyfatebol i Reoliadau Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) (Cymru) 2007.

Mae rheoliadau 5 i 7 yn gwneud diwygiadau cyfatebol i Reoliadau Addysg (Athrofa Brifysgol Ewropeaidd) (Cymru) 2014.

Mae rheoliad 8 yn gwneud diwygiadau cyfatebol i Reoliadau Addysg Uwch (Cyrsiau Cymhwysol, Personau Cymhwysol a Darpariaeth Atodol) (Cymru) 2015.

Mae rheoliadau 9 i 19 yn gwneud diwygiadau cyfatebol i Reoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2017.

Mae rheoliadau 20 i 22 yn gwneud diwygiadau cyfatebol i Reoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Feistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2017.

Mae rheoliadau 29 i 31 yn gwneud diwygiadau cyfatebol i Reoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Ddoethurol Ôl-raddedig) (Cymru) 2018.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 31/12/2020. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Instrument yn cynnwys darpariaethau sy'n rhagolygol.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Mae newidiadau yn dal heb eu gwneud i Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019. Mae unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud yn barod gan y tîm yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt gydag anodiadau.